Carwyn Jones AC/AM

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
Counsel General and Leader of the House

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

23 Hydref 2007

Annwyl Dafydd

GORCHYMYN Y TAFOD GLAS (CYMRU) (IAWNDAL) 2007

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu y bydd yn rhaid torri'r rheol 21 diwrnod yng Nghymru er mwyn cael dod â Gorchymyn Tafod Glas (Cymru) (Iawndal) 2007 i rym a sicrhau cysondeb rhwng Cymru a Lloegr. Cafodd y Gorchymyn ei wneud ar 22 Hydref 2007, daeth i rym ar 22 Hydref 2007 a chafodd ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2007.

Bydd y Gorchymyn yn ei gwneud yn bosibl talu iawndal i ffermwyr os bydd yn rhaid difa anifail sydd â'r Tafod Glas arno, y mae amheuaeth ei fod arno neu sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r feirws, o dan adran 32 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Mae'n rhaid i holl wledydd yr UE gymryd mesurau i reoli'r Tafod Glas. Mae'r mesurau hynny'n cynnwys difa anifeiliaid. Cafodd y cynlluniau wrth gefn ar gyfer delio â'r Tafod Glas eu hadolygu yn 2007 yng ngoleuni tystiolaeth newydd o'r achosion yn yr Iseldiroedd, Gwlad Belg, Lwcsembwrg, rhannau o orllewin yr Almaen a Gogledd Ffrainc. Mae strategaeth y Deyrnas Unedig (DU) yn rhagweld amgylchiadau pan fydd angen lladd anifeiliaid, er enghraifft anifeiliaid wedi'u mewnforio neu cyn bod cadarnhad bod y feirws yn cylchredeg rhwng anifeiliaid a gwybed.

O dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, rhaid wrth Orchymyn i dalu iawndal. Wedi ymddangosiad y Tafod Glas yn Lloegr ym mis Medi 2007 a'i ymlediad tua'r gorllewin, mae angen y Gorchymyn arnom i allu talu iawndal i ffermwyr y mae'n rhaid difa eu stoc am fod y Tafod Glas arnynt, bod amheuaeth ei fod arnynt neu am eu bod wedi bod mewn cysylltiad â'r feirws.

Rhaid cael Gorchymyn felly ar unwaith er mwyn cael talu iawndal am unrhyw anifeiliaid fydd o bosibl yn gorfod cael eu difa. Daeth Rheoliadau cyfatebol i rym yn Lloegr ar 20 Hydref

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 029 2082 8055
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Gohebiaeth.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

2007. Felly, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng Cymru a Lloegr o safbwynt cael talu iawndal i ffermwyr a sicrhau nad yw ffermwyr Cymru'n dioddef cam, bydd yn rhaid torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn i'r Gorchymyn gael dod i rym ar unwaith.

Nid oes gan yr Alban gynlluniau i wneud gorchymyn tebyg ar hyn o bryd ac mae Gogledd Iwerddon yn ystyried gwneud deddfwriaeth o'r fath.

Oherwydd prinder amser, nid oes ymgynghoriad nac Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u cynnal ar y Gorchymyn. Serch hynny, mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac mae hwn a'r Gorchymyn yn cael eu gosod yn y Swyddfa Gyflwyno.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a Chris Reading, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.